CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor nos Lun, 5 Mehefin 2017**

Presennol:
*Cadeirydd:* Bryan Rees *Cynghr:* Ken Symmons, Mrs Kay Morgan, Iwan Davies, Mrs Eleri Davies, Hywel Davies, Mrs N Redmund

*Cynghorydd Sirol J C Davies*

Clerc

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, ac yn arbennig y Cynghorydd Sirol newydd, y Cyng J C Davies. Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor yn edrych ymlaen at weithio gyda'r CS J C Davies. Cyflwynwyd y CS J C Davies i'r rhai oedd yn bresennol a rhoddodd yntau grynodeb byr o'i gyfrifoldebau yn y Sir.

Roedd y Cyng Mrs A Edwards wedi anfon ei hymddiheuriadau.

Dywedodd y Cadeirydd, y Cyng B Rees a'r Is-gadeirydd, y Cyng I Davies y byddent ill dau'n absennol o'r cyfarfod ym mis Gorffennaf. Esboniodd y Clerc y byddai angen i'r Cyngor, yn absenoldeb y ddau, ethol Cadeirydd ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**

Dim.

**4. Materion Personol**

Gwahoddodd y Cyng Mrs Kay Morgan bawb i'r Te Mefus yn yr Eglwys ar 15 Mehefin am 2pm.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

Dim

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**

Dywedodd y CS J C Davies ei fod yn ymwybodol o'r problemau dŵr yn Preseli View, rhifau 5 i 8. Cyfrifoldeb Tai Ceredigion oedd hyn, nid Dŵr Cymru, a dylai'r gwaith gael ei wneud yn ystod y dyddiau nesaf.
Roedd ymgeisydd cynllunio wedi cysylltu ag ef, ond roedd wedi awgrymu y dylai'r ymgeisydd siarad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd y Clerc fod yr ymgeisydd hefyd wedi cysylltu â hi a'i bod wedi darparu dyddiadau cyfarfodydd.
Dywedodd ei fod wedi cael ymholiad am arwydd ffordd a'i fod wedi dweud wrth yr Adran Briffyrdd amdano. Dywedodd hefyd fod rhywfaint o waith cynnal a chadw i gael ei wneud ar lwybrau troed.

Roedd hefyd yn ymgyrchu am derfyn cyflymdra 20mya y tu allan i'r ysgol. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn ysgrifennu i gefnogi hyn.
**GWEITHREDU:** Llythyr at Mr P Arnold, CSC GAN: Y Clerc

Roedd y CS J C Davies wedi sôn am gais y Cyngor Cymuned am ei gymorth ynglŷn â llwybrau troed. Esboniwyd bod y Cyngor Cymuned lawer gwaith wedi gofyn am lwybr troed rhwng tafarn Seven Stars a Flambards a rhwng Llechryd ac Aberteifi. Ar ôl trafodaeth cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon at y CS J C Davies y wybodaeth oedd ganddi ac y byddai e'n mynd i'r afael â'r mater. Nodwyd y gallai'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fod yn offeryn defnyddiol i hyrwyddo'r cais am lwybrau troed, ac er nad oedd Llechryd wedi'i gynnwys yn y fenter Teithio Llesol, byddai'r CS J C Davies yn edrych ar hynny.

Diolchwyd i'r CS J C Davies ac yna gadawodd y cyfarfod.

**7. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng Mrs E Davies y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng I Davies, a phenderfynwyd yn unfrydol.

**8. Materion yn Codi**
Dim

**9. Cyllid a Gweinyddu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.06.17 | Abacus | Glanhau'r bloc toiledau | 170.00 | |
| | | Cysgodfannau bws | 76.00 | |
| | | | 246.00 | |
| | Mr E Brown | Torri'r borfa Mai | 492.00 | |
| | Cyng B Rees | Lwfans y Cadeirydd | 350.00 | |
| | J Jamison | Archwiliad Mewnol | 65.00 | |
| | CommuniCorp | Y Clerc a'r Cynghorwyr | 12.00 | |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd Mai | 15.00 | |
| | S E Houghton | Postio | 13.44 | |
| | HMRC | Treth (Ebrill) | 3.00 | |
| | S E Houghton | Swyddfa yn y cartref | 25.00 | |
| 30.06.17 | S E Houghton | Cyflog | 327.18 | AS |
| | | | 1,302.62 | |

Nid oedd *adroddiad banc mis Mai* wedi cyrraedd hyd yma er bod amcangyfrif bras yn dweud bod £27795.15 yn y prif gyfrif a £13411.33 yn y gronfa wrth gefn, gan adael £14383.82 tan ddiwedd Hydref 2017, pan fyddai cyfran nesaf y praesept yn ddyledus.

*Biliau heb eu talu:*

Lle chwarae: Cyllideb ar gyfer cynnal a chadw £600
£318 am seddi i’r siglenni
Posibl £164 am beintio
Cost dyfeisiau cau i ddod

*Cyllideb cynnal a chadw a thrwsio £1000*
Plannu: £267 llenwi cychwynnol a phlannu yn yr haf
£114 plannu yn y gaeaf

Ar ôl nodi ffigurau’r adroddiad a’r costau cynnal a chadw i ddod, cynigiodd y Cyng H Davies y dylid derbyn y taliadau. Eiliwyd gan y Cyng Mrs K Morgan, a phenderfynwyd yn unfrydol.

*Diwedd Blwyddyn*
Darllenwyd yr Archwiliad Mewnol a’i nodi. Diolchwyd i Mrs J Jamison am ei gwaith. Cynigiodd y Cyng Mrs N Redmund y dylid derbyn adroddiad yr Archwiliad, y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a’r ffigurau diwedd blwyddyn. Eiliwyd: y Cyng Mrs K Morgan, penderfynwyd yn unfrydol.

*I gadarnhau’r gronfa wrth gefn* - £13411.33 a fyddai wedi talu am y prosiect i adnewyddu’r siglenni.

Gan mai’r dewis nawr yw trwsio’r siglenni, awgrymodd y Clerc y dylid cymryd cost y seddau i’r Eglwys a blwch y diffibrileiddiwr o’r gronfa wrth gefn

Seddau: £1000 (os 2 o blastig wedi’i ailgylchu) neu £831 os ‘Lest we for forget’.
Blwch y diffibrileiddiwr: tua £500 - £600 a’r gosodiad a’r goleuadau, amcangyfrif bras £1000
Trwsio’r hysbysfwrdd.

Sy’n gadael tua £11,000 ar gyfer gwaith prosiect ac am unrhyw waith ychwanegol angenrheidiol yn ychwanegol at ffigurau’r gyllideb.

Roedd *HMRC* wedi cadarnhau y gall y Cyngor, fel unig Ymddiriedolwr Rheoli Cymdeithas Caeau Chwarae Llechryd, barhau i dalu am brynu pethau yn uniongyrchol o’i gyfrifon a hawlio TAW am brynu’r eitemau hynny. Does dim angen ad-dalu TAW a oedd wedi ei hawlio’n ôl yn flaenorol.

Y Clerc i hysbysebu *swyddi gwag ar y Cyngor Cymuned* gan ddilyn cyngor CSC.

Un Llais Cymru i holi am ganlyniadau ei gais i Lywodraeth Cymru ynglŷn â chodi trethi busnes ar doiledau sy’n eiddo cyhoeddus.

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*Cysgodfannau Bws* - Roedd Abacus wedi dweud bod graffiti ar y cysgodfannau bws ac nad oedd yn bosib eu glanhau heb wneud i’r ‘Perspex’ edrych yn aneglur. Ar ôl trafodaeth cytunwyd i ofyn i Abacus lannau’r graffiti. Wedyn byddai’r Cyngor yn asesu’r effaith.

*Blychau blodau* – Dywedodd y Clerc ei bod yn dal i ddisgwyl i Tai Ceredigion gadarnhau a ellid gosod blwch blodau ar y llain borfa wrth yr ysgol (a mainc o bosibl yn y dyfodol).

**11. Amwynderau**
*Man / cae chwarae*
Dyfynbris am beintio’r siglenni a’r rhwystrau
Nid oedd dau gontractiwr yn dymuno cyflwyno dyfynbris am y gwaith. Cytunwyd i dderbyn dyfynbris gan Abacus: £164 am y gwaith peintio ar ddwy siglen a rhwystrau.
**GWEITHREDU:** Cysylltu ag Abacus GAN: Y Clerc

*Gât* - Abacus yn dal i ymchwilio i ddyfeisiau cau posibl.

Dywedodd y Cyng H Davies fod y darnau anghywir wedi eu darparu i'r contractiwr ar gyfer y *siglenni.* Byddai'r gwaith yn cael ei wneud cyn gynted ag y byddai'r darnau cywir ar gael.

Cadarnhawyd bod cyfreithiau CSC ar 'ddim baw cŵn' yn gymwys i'r cae chwarae a'r man chwarae. Byddai'r Warden Cymuned yn edrych ar yr arwyddion presennol ac yn gosod rhai yn eu lle yn ôl yr angen. Sylwyd bod angen arwydd 'dim cŵn' wrth y fynedfa i'r man chwarae.

*Biniau* – Cadarnhawyd bod Mr Brown yn gwacau'r biniau ac yn gwaredu'r gwastraff drwy gynllun priodol.

*Gwely llwyni* – Aros am ddyfynbris.

*Diffibrileiddiwr*
Roedd y Clerc wedi ceisio archebu'r dewis o flwch ond nid oedd wedi teimlo'n hyderus wrth ddelio â'r cwmni am amrywiol resymau. Nid oedd wedi archebu'r blwch ac nid oedd wedi gallu dod o hyd i flwch o fewn yr un ystod prisiau. Cytunwyd am y tro i ofyn am ddyfynbris am osod golau uwchben y blwch ond na fyddai'r blwch yn cael ei adnewyddu. Byddid yn cadw llygad ar y sefyllfa.

*Hysbysfwrdd*
Roedd Mr C Lewis yn garedig iawn wedi llunio manylion am gost adnewyddu'r hysbysfwrdd.
**GWEITHREDU**: Chwilio am ddyfynbrisiau am y gwaith GAN: Y Cadeirydd

*Bloc toiledau*
Roedd problemau'n parhau gydag alcohol etc. Y Clerc i gysylltu â'r Heddlu am y problemau a chael camerâu dros dro.

*Mynwent*
Roedd y Clerc wedi dod o hyd i nifer o gynlluniau o feinciau, rhai'n benodol ar y 'Cofio'. Er na theimlwyd bod yr un o'r cynlluniau'n hollol addas, cytunodd y Cyng Mrs E Davies i drafod cynlluniau gyda chontractiwr oedd yn adnabyddus.
Cytunwyd, beth bynnag fyddai'r cynlluniau, fod angen dwy fainc ar gyfer y ddau blac a oedd wedi'u tynnu oddi ar y meinciau a oedd wedi'u niweidio.
**GWEITHREDU:** Trafod cynlluniau GAN: Y Cyng Mrs E Davies

**12. Prosiectau'n parhau**

**13. Digwyddiadau**
Gofynnodd y Clerc a ellid dechrau ystyried trefnu unrhyw ddigwyddiadau Cofio a Nadolig gan fod yr amser yn brin o gofio am doriad mis Awst.

*Sul y Cofio*
Cytunodd y Cyng Mrs K Morgan i siarad â'r Ficer ynglŷn â threfnu gwasanaeth byr wrth y plac yn yr hen eglwys.

*Goleuadau Nadolig*
Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu â'r ysgol ynglŷn â dyddiad i gynnau'r goleuadau.

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dywedodd y Cadeirydd iddo fod yn Seremoni Arwisgo'r Maer yn Aberteifi. Gofynnodd a ddylai'r Cyngor Cymuned roi mwy o sylw i'r trosglwyddo rhwng Cadeiryddion.
**GWEITHREDU:** Eitem Agenda – Y Flwyddyn Newydd GAN: Y Clerc

**15. Gohebiaeth / + gohebiaeth e-bost**
Gohebiaeth wedi'i nodi:
Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Arolwg 'A Wyddech Chi'

Rhaglen Hyfforddiant Un Llais Cymru

Ymgynghoriad Cyhoeddus PROWI

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**
Dywedodd y Cyng Mrs N Redmund y byddai wythnos o weithgareddau pentref cyn y Parti yn y Parc ddydd Sadwrn 1 Gorffennaf. Gofynnodd am ganiatâd i'r Pwyllgor ddefnyddio'r cae chwarae ar gyfer y digwyddiad. Yn amodol ar allu cyflwyno tystiolaeth o yswiriant ac asesiad risg, cytunwyd y gellid defnyddio'r cae chwarae ar ôl cael cymeradwyaeth yr Elusen.

Gofynnodd y Clerc a oedd y tudalen Parti Pentref FB y cael ei defnyddio fel tudalen wybodaeth gyffredinol i'r pentref. Credid yn gyffredinol nad oedd, ond roedd tudalen bentref yn rhywbeth y gellid ymchwilio iddi.

Gofynnwyd a oedd caniatâd ar gyfer y gampfa yn Nhŷ Rhos.
**GWEITHREDU:** Holi am y statws GAN: Y Clerc

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3.7.17 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm.*